CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 10 Medi 2019 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yn yr hwyr.	
PRESENNOL	
Daniel Williams	Iwan Huws
Casi Roberts	Eifion Williams
Llyr Efans	Cynog Prys
Elliw Williams	
Nerys John	Cynghorydd Sir – Gareth Griffiths
Cyfarfod arbennig ynglŷn â Cynllun Lan y Môr gydag Emyr Gareth Swyddog Cyngor Gwynedd.	
0.0	**Yn bresennol Iwan Huws, Daniel Williams, Eifion Williams, Gareth Griffiths a Nerys John.**

Cofnod Gareth Emyr

Yn dilyn crynodeb o amcanion a dyluniad y cynllun, cafwyd trafodaeth ar nifer o agweddau:

- **Barn trigolion Glan y Môr** - yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod fod peth gwrthwynebiad i'r cynllun - yn bennaf o safbwynt gweledol a'r effaith ar yr olygfa. Yn flaenorol rydym wedi paratoi lluniau sy'n dangos sut y gallai'r wal edrych o wahanol safbwyntiau ar hyn ffordd Glan y Môr. Ni fyddai'r wal yn cuddio'r olygfa o'r Afon Menai i unrhyw un sy'n sefyll ar y palmant o flaen tai Glan y Môr. Fe fyddwn yn danfon Cylchlythyr i'r trigolion yn y man er mwyn eu diweddaru ar y cynllun.
- **Llefydd parcio** - yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, roedd peth gwrthwynebiad i'r cynnydd yn y nifer o lefydd parcio. Fel trafodwyd, ni fydd cynifer o lefydd parcio newydd yn y cynllun o'i gymharu â beth awgrymwyd yn wreiddiol. Yn benodol, ni fydd posib cynnwys llefydd parcio ychwanegol o flaen rhifau 27 i 33 Glan y Môr - oherwydd cyfyngiadau yn ymwneud ag asedau BT. Bydd posib cynnwys llefydd parcio ychwanegol o flaen rhifau 17-20 ac fe wnawn edrych eto ar yr opsiynau ar gyfer y tir o flaen rhifau 7-9. Bwriedir cael gwared ar y llefydd parcio answyddogol sydd ger yr hen gwt fferi gan y bydd y rhain ar ochr y môr o'r wal.
- **Amddiffynfa ar draws y lon ger y clwb hwylio** – cynigwyd dau opsiwn ar gyfer mynd a'r amddiffynfa ar draws y lon i'r tir uchel:
  - 'ramp' tua 1.2m o uchder ar y lon
  - gât fyddai angen ei chau pan fod lefel y môr yn uchel

  Mae pros/cons i'r ddau opsiwn a chytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn trafod ymhellach cyn rhoi eu ymateb.
- **Plannu** – roedd y Cyngor yn gefnogol o'r bwriad o gael lleoedd plannu blodau ar hyd y wal. Mae cynllun ganddynt yn barod i sicrhau fod personau yn gyfrifol am ofalu am flodau o amgylch y pentref.
- **Sylwadau Gŵyl y Felin** –
  - Dim pryderon o ran mynediad
  - Cefnogaeth i gael gwared o'r 'paving slabs' presennol ar draws y gwair a gosod llwybr mwy deniadol. Does dim pryder o safbwynt lleoliad y marcî
  - Holwyd os oes posib symud y 2x focs cyflenwad trydan i ochr arall y wal
  - Holwyd os oes posib gosod cyflenwad trydan newydd - yn agosach i wal y môr - byddai'r Ŵyl yn hapus i gyfrannu'n ariannol ac i'r cyflenwad fynd yr enw'r Cyngor Cymuned
  - Holwyd os oes posib gosod cyflenwad dŵr ar gyfer yr Ŵyl - byddai'r Ŵyl yn hapus i gyfrannu'n ariannol ac i'r cyflenwad fynd yr enw'r Cyngor Cymuned
  - Fe wnaiff Cyngor Gwynedd ymchwilio i'r materion uchod

    Cyfnod adeiladu – ar hyn o bryd, y gobaith ydy dechrau adeiladu yn fuan yn 2020. Awgrymwyd y dylid cael grŵp llywio – i gynnwys trigolion / y Cyngor Cymuned / y contractiwr / Cyngor Gwyned – er mwyn sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei rannu yn effeithiol ac fod modd i'r gymuned rannu unrhyw bryderon.

Heather Lynne Jones

	Cytunwyd i drafod ac ystyried yr opsiynau'r amddiffynfeydd yn nghyfarfod misol mis Hydref y Cyngor.	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Croesawyd dau aelod newydd o'r Cyngor sef Llyr Efans a Cynog Prys, gobeithir croesawu y trydydd aelod newydd mis nesaf. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr, Aled Emyr, Gruff John, Mei Gwilym a Iestyn Harris. Cyfeiriwyd at brofedigaeth y Swyddog Ariannol o golli ei wraig, anfonwyd cydymdeimlad dwysaf y Cyngor ato. Gobeithir cynnal sesiwn hyfforddi (induction) i'r cynghorwyr newydd ym mis Hydref wedi iddynt dderbyn y llawlyfr a dogfennau cymwys eraill.	**CLERC**
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Rhoddodd Y Cynghorydd Sir wybodaeth ddiweddaraf ar eitemau oedd wedi cael sylw yn ddiweddar.	
2.1	Cais Cynllunio eitem 6.4. Dywedodd bod y cynllun yn go wahannol a bod Cyngor Gwynedd am ddisgwyl sylwadau cyn ystyried y cynllun yn fanylach.	
2.2	Dywedodd bod Cyngor Gwynedd yn edrych i dderbyn cymorth y Cynghorau Cymuned gyda gwaith cynnal gwrychoedd ar lwybrau cysylltu o fewn pentrefi. Ni does unrhyw penderfyniad wedi ei wneud hyd yn hyn ond efallai bod angen i'r Cyngor Cymuned am feddwl ymestyn contract torri gwrychoedd y llwybrau cyhoeddus i gynnal y llwybrau cysylltu hefyd.	
2.3	Cwyn ynglŷn ag ymwelwyr yn aros mewn eiddo Air B & B yn defnyddio biniau cyhoeddus gan fod gwasanaeth cludo gwastraff ddim ar gael yn yr eiddo. Dywedodd ei fod am edrych ar y mater yma.	**G.G**
2.4	Dywedodd y Cynghorydd Sir bod gan y Cyngor Wefan lle mae'r gallu i gofnodi cwyn a thynnu llun, mae ap hefyd ar gael. Dylai aelodau o'r gymuned eu defnyddio er mwyn sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn cofnodi'r gwyn.	
2.5	Trafodwyd bod llinellau melyn cyfyngiadau parcio wedi ei rhoi ar Hen gei Llechi ond nid wedi eu cwblhau hyd yma.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Cynghorydd Casi Roberts – eitem 6.3	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cadarnhawyd gwariant ac derbyn adroddiad ar gyfer Mis Gorffennaf 2019, derbyniwyd yn gywir.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Mehefin fel rhai cywir.	
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	Y19/00172 – Dymchwel stablau presennol a chodi stablau newydd ynhyd a chodi adeilad marchogaeth dan do a milodfa – Swn y Môr, Llanfair-isgaer, Caernarfon LL55 1TS – **SYLWADAU** -trafodwyd yr ymholiad cyn cais Cynllunio a phenderfynwyd y canlynol: Bod maint ac uchder yr adeilad	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**

	yn effeithio cymeriad a chadwraeth yr ardal yn enwedig gan bod Eglwys hynafol a thair mynwent o fewn yr ardal.	
6.2	C19/0697/20/LL – Porth Newydd – Neuadd Goffa, Y Felinheli LL56 4XD- **Gwybodaeth yn Unig**	**CLERC -** e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio
6.3	C19/0783/20/CT – gwaith i goed mewn ardal gadwraeth – 5 Ty'n Lon Y Felinheli LL56 4JT – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC -** e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio
6.4	C19/0787/20/LL- Cynllun cynhyrchu trydan trwy ddefnyddio tanwydd nwy a chyfarpar atodol – Ystad diwydiannol, Griffiths Crossing, Caernarfon LL55 1TS – **ANGEN FWY O AMSER I YSTYRIED Y CAIS**	**CLERC -** e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Chysgodfan Bws Aberpwll wedi ei gwblhau. Cost yr adeiladu yn unol â'r dyfynbris £3300 Stansions £260 gwaith ychwanegol £125 Cyfanswm £3695 + TAW. Cytunwyd i dalu'r Anfoneb.	**CLERC**
7.2	Mae angen symud ymlaen i atgyweirio'r hen gysgodfan. Meical Hughes yn edrych ar y coed i wneud yn saff os gellir eu defnyddio ac i anfon pris am ei drwsio.	**DW**
7.3	Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chysgodfannau yn gyffredinol yn enwedig ar gyflwr rhai o'r ffenestri. Penderfynwyd bod y Cynghorydd Nerys John yn gwneud ymholi a Choleg Menai i edrych os byddai myfyrwyr cwrs arlunio sylfaenol yn hoffi dylunio'r ffenestri.	**NJ**
7.4	Cafwyd cais am gysgodfan ar draws y ffordd i Gwrt Menai yr unig safle bws sydd heb cysgodfan. Penderfynwyd bod y Clerc yn gwneud ymholiadau am bris.	**CLERC**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John bod hanner yr adroddiad blynyddol wedi ei gwblhau a bod angen cwblhau'r adroddiadau ysgrifenedig a sicrhau bod gwaith o'r adroddiad llynedd wedi ei gwblhau.	**NJ**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Cafwyd adroddiad bod un fainc o fewn y fynwent angen ei sandio a chael staen – y Cynghorydd Daniel Williams am ofyn am bris oddi wrth Meical Hughes.	**DW**
9.2	Trafodwyd safle Moriah ynglŷn â gwaith cynnal a chadw. Bydd angen tocio'r lafant yn fuan. Penderfynwyd rhoi gwybodaeth a'r whatsapp i ddweud bod sesiwn cynnal y Don wedi ei drefnu ar gyfer 22 Medi 2019. Penderfynwyd hefyd i ystyried yn y gwanwyn i gael garddwr i'r safle.	**NJ**
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Elliw Williams am y cais am grant i symud ymlaen a rhan 2 y Cae Chwarae ar Lan y Môr. Dywedodd ei bod wedi rhoi cais am £12700 i Gronfa Treth Tir lenwi. Ni does unrhyw wybodaeth wedi ei dderbyn os yw'r cais wedi body n llwyddiannus. Y Grant nesaf fydd Comic Relief sydd gyda dyddiad cau ym mis Hydref.	**EW**
10.2	Mae'r Brownies yn casglu sbwriel ar y 30 o Fedi 2019. Dywedodd y Cynghorydd Nerys John y byddai yn gwahodd	

	aelodau'r Cyngor i fynychu hefyd. Caniatawyd i'r Brownies ddefnyddio'r offer sydd yn y Neuadd. Mae Gŵyl y Felin wedi rhoddi eu hoffer yn y neuadd er mwyn i wirfoddolwyr gallu eu defnyddio.	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Daniel Williams.	
11.2	Cais Cynllunio wedi ei wneud ar gyfer porth – dim gwrthwynebiad. Angen cadarnhau talu anfoneb y Pensaer am y gwaith i ddyddiad sydd yn unol a'r ddyfynbris. Cytunwyd i dalu £611.80. Hefyd penderfynwyd i symud ymlaen i ran nesa y gwaith.	**DW**
11.3	Arolwg Asbestos – derbyniwd amcan bris am y gwaith gan APEC sef £285 +TAW. Cytunwyd i symud ymlaen a'r gwaith.	**DW**
11.4	CCTV – gwaith o osod socets wedi ei gwblhau – gally gwaith o osod y CCTV nawr fynd ymlaen, Y Cynghorydd Daniel Williams i gysylltu a'r peiriannydd.	**DW**
11.5	Mae mwy o luniau'r diweddar Len Williams wedi eu derbyn ac mae angen cabinets ar eu cyfer. Cytunwyd ar £200 ar gyfer prynu dau gabinet.	**CR**
11.6	Mae holl waith gan Owen & Palmer wedi ei gwblhau. Mae anfonebau y gwaith wedi dod i law. Cyfanswm o £1007. Cytunwyd i'w talu.	**CLERC**
11.7	Dywedodd Y Cynghorydd Daniel Williams ei fod gyda'r Cynghorydd Casi Roberts wedi bod yn gwneud gwaith ar soundboards i'r neuadd. Hyd yma mae'r coed wedi costio £51.86 - gofynnwyd am gadarnhad i dalu'r anfoneb, cytunwyd.	**DW**
11.8	Mae ychydig o ddŵr wedi dod i mewn i'r neuadd, hefyd mae llechen yn rhydd ar y to. Y Cynghorydd Daniel Williams i symud ymlaen i gael pris am y gwaith.	**DW**
11.9	Mae angen ffôn i'r Glanhawraig.	**MG**
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC**
13.0	**GWYDNWCH CYMUNEDOL.**	
13.1	Y Cynghorydd Eifion Williams yn parhau i ddiweddaru'r gwaith. Hefyd cafwyd wybodaeth bod y Swyddog oedd yn ymwneud a'r Cyngor o'r gwasaneth Cynllunio Argyfwng Gogledd Cymru wedi ymddeol a bod neb wedi ei benodi yn y swydd yn ei lle.	
13.2	Derbynwyd wybodaeth bod rhai o'r aelodau wedi derbyn ymateb oddi wrth rhai o'r gymuned nad oeddynt yn hapus gyda phenderfyniad y Cyngor i gefnogi yr ymgyrch Yes Cymru i annibyddiaeth.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		**Dyddiad:**